


Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

BUPA Dental Care Wreccsam, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 28 Mai 2026

Dyddiad cyhoeddi: 28 Awst 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-201-6

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym.....	9
Ansawdd Profiad y Claf	9
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	15
4. Y camau nesaf.....	19
Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	21
Atodiad C – Cynllun gwella	23



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o BUPA Dental Care Wrecsam, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 28 Mai 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o ddau holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 10 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod BUPA Dental Care Wrecsam yn darparu gofal mewn amgylchedd diogel a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw a'i gefnogi gan reolwyr a threfniadau llywodraethu priodol. Gwelsom fod y staff yn broffesiynol, yn gwrtais ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon dda. Roedd y cleifion a roddodd adborth drwy'r holiadur ac ar lafar i'n tîm yn gadarnhaol am y gwasanaeth roeddent wedi'i gael, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch.

Gwelsom y staff yn rhyngweithio â chleifion mewn ffordd gwrtais ac roeddent yn barod i helpu. Roedd trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd wrth roi gofal a thriniaeth.

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o daflenni gwybodaeth i gleifion, a dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth, y risgiau, y manteision a'r costau. Roedd oriau agor y practis a'r trefniadau ar gyfer gofal brys a gofal y tu allan i oriau wedi'u cyfleu'n glir. Dangosodd y practis hefyd ymwybyddiaeth o anghenion o ran y Gymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu gwybodaeth i gleifion i'w helpu i roi'r gorau i smygu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd
- Dywedodd y cleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth am yr opsiynau triniaeth, y risgiau a'r manteision
- Roedd trefniadau clir ar waith ar gyfer gofal brys a gofal y tu allan i oriau
- Dangosodd y practis ymwybyddiaeth o anghenion hygyrchedd a chydaddoldeb.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod BUPA Dental Care Wrecsam yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol a bod systemau a phrosesau priodol ar waith i gefnogi diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da.

Roedd yr asesiadau risg yn cwmpasu diogelwch tân, ystyriaethau amgylcheddol, a'r holl agweddau ar iechyd a diogelwch. Roedd yr adeilad yn cael ei gynnal i safon uchel yn fewnol ac yn allanol, yn cynnwys cyfarpar a oedd yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd, ac nid oedd unrhyw beryglon.

Roedd protocolau atal a rheoli heintiau wedi cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, a oedd yn cael eu hategu gan bolisi atal a rheoli heintiau cynhwysfawr ac archwiliadau rheolaidd. Roedd amserlenni glanhau yn cael eu cynnal yn gyson, ac roedd cyfarpar diogelu personol a hylif diheintio dwylo ar gael yn hawdd.

Roedd polisïau, gweithdrefnau a siartiau llif diogelu ar gael i arwain y staff. Roedd tystiolaeth glir i ddangos bod yr holl bersonél wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu a gwnaethant ddangos dealltwriaeth weithredol o'r broses ar gyfer nodi pryderon diogelu.

Gwelsom fod gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X. Roedd yr holl gyfarpar yn cael ei archwilio a'i wasanaethu'n rheolaidd.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar adfywio cardiopwlmonaidd, ac roedd meddyginiaethau a chyfarpar brys yn cael eu storio'n ddiogel gydag archwiliadau wythnosol wedi'u hamserlennu. Roedd y silindr ocsigen wedi'i gynnwys yn y bag adfywio, ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio.

Roedd y cofnodion clinigol yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol ar y cyfan. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai meysydd lle roedd angen mwy o gysondeb. Yn benodol, nid oedd dewisiadau iaith cleifion, newidiadau i hanes meddygol, a manylion llawn triniaethau bob amser yn cael eu cofnodi'n glir ac yn rheolaidd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod cofnodion clinigol yn cael eu cwblhau'n llawn a'u cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol perthnasol a chanllawiau arfer gorau

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn fawr, yn olau, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.
- Roedd un deintyddfa wedi cael ei hadnewyddu'n ddiweddar, ac roedd cynlluniau ar waith i adnewyddu'r pedair deintyddfa arall.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwnaethom nodi bod y practis yn elwa ar drefniadau arweinyddiaeth effeithiol a llinellau atebolrwydd clir. Roedd rheolwr y practis yn dangos ymrwymiad parhaus i ddarparu gofal o safon uchel. Roedd y tîm o staff yn cynnwys chwe deintydd, dau therapydd / hylenydd, rheolwr y practis a chydgyssylltydd, nyrs arweiniol wedi'i chefnogi'n fedrus gan dîm o nyrsys deintyddol cofrestredig, nyrsys dan hyfforddiant a derbynnydd.

Roedd cofnodion y staff yn cael eu cynnal i safon briodol, gyda thystiolaeth bod yr hyfforddiant yn gyfredol ac yn cyd-fynd â'r gofynion rheoliadol perthnasol. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Roedd cyfres gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith a oedd yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd, gan gynnwys cylch adolygu blynyddol lle y bo'n gymwys. Roedd y practis yn defnyddio systemau electronig yn effeithiol i gefnogi'r gwaith o oruchwylio'r gwasanaeth a gwella ansawdd y gwasanaeth.

Dyweddodd y staff fod cyfleoedd dysgu a datblygu priodol ar gael iddynt i'w helpu i gyflawni eu rolau, a gwelsom dystiolaeth bod arfarniadau staff wedi'u cwblhau. Roedd y trefniadau llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol yn ddigonol i gynnal cyfrinachedd y cleifion a chefnogi cydymffurfiaeth â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau rheoli effeithiol yn y practis
- Roedd ffeiliau'r staff yn cael eu cadw'n dda
- Roedd hyfforddiant y staff yn gyfredol ac yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Er mai dim ond nifer bach o gleifion a ymatebodd i'n holiadur, roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol, yn enwedig mewn perthynas â mynediad at ofal, rhyngweithio'r staff, ac ansawdd y gofal clinigol a ddarperir. Dywedodd un claf:

"Rhagorol, proffesiynol ac yn barod i helpu".

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth i gleifion ar gael yn y practis i'w hannog i fyw'n iach ac i gynnal iechyd y geg da. Gwelsom bosteri ar amrywiaeth o bynciau. Roedd gwybodaeth ychwanegol hefyd wedi'i darparu ar ffurf poster darluniadol mewn perthynas â'r defnydd o belydrau-X yn y practis ac adnabod arwyddion sepsis.

Roedd taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd yn yr ardal aros ac roedd llawer iawn o wybodaeth ar gael ar-lein hefyd. Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben cyfredol a oedd yn cael ei arddangos.

Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion am roi'r gorau i smygu. O gofio effaith hirsefydledig smygu ar iechyd y geg, gan gynnwys mwy o risg o glefyd periodontol a chanser y geg, mae'n bwysig bod cleifion yn cael gwybod am gymorth rhoi'r gorau i smygu fel gwasanaeth 'Helpa fi i Stopio' y GIG.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod dull y practis o hybu iechyd yn cynnwys cymorth priodol i gleifion sy'n dymuno rhoi'r gorau i smygu.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd trefniadau ar waith i gefnogi preifatrwydd cleifion. Roedd drysau'r ystafelloedd trin yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau.

Roedd y brif ardal aros yn dawel ac yn cynnwys seddi cyfforddus y gellid eu glanhau. Roedd seddi ychwanegol i gleifion a oedd yn aros ar y llawr cyntaf y tu allan i bob deintyddfa. Ni ellid clywed sgysiau a oedd yn cael eu cynnal yn y deintyddfeydd.

Roedd y storfa, y gegin a chyfleusterau'r staff ar y llawr gwaelod, ac roedd ystafelloedd clinigol ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf. Roedd yr ystafell glinigol ar y llawr gwaelod yn fawr a gellid ei chyrraedd o'r maes parcio a'r ystafell aros. Roedd pedair ystafell glinigol

ychwanegol a'r ystafell ddihalogi ar y llawr cyntaf, ac roedd angen defnyddio'r grisiau i'w cyrraedd. Roedd arwyddion priodol i'w gweld ym mhob ystafell glinigol.

Gwelsom fod y toiledau rhywedd cymysg i gleifion, a oedd ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf, yn lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo priodol ar gael, ynghyd ag uned gwaredu nwyddau mislif.

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur, a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad, wrthym eu bod wedi cael eu trin mewn ffordd garedig a gydag urddas a pharch gan staff y practis. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod triniaethau yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod apwyntiadau mewn ffordd y gallent ei deall.

Yn ystod ein harsylwadau, gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn modd urddasol a pharchus. Roedd y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a chymwynasgar.

Gwelsom fod naw egwyddor safonau moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld yn yr ardal aros ar y llawr gwaelod. Roedd enwau'r deintyddion, eu rolau a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn glir y tu allan i'r practis. Yn ogystal, roedd enwau'r staff clinigol a'u manylion cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos i'r cleifion eu gweld ac wedi'u cynnwys yn y taflenni gwybodaeth i gleifion ac ar-lein.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Mewn ymateb i holiadur AGIC i gleifion, dywedodd yr holl ymatebwyr wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt. Dywedodd pob un ohonynt wrthym fod eu hanesion meddygol yn cael eu cadarnhau cyn iddynt gael pob sesiwn o driniaeth.

Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall y risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth sydd ar gael. Dywedwyd wrthym fod y costau wedi cael eu hesbonio cyn y driniaeth; ond nododd y rhan fwyaf nad oedd tâl oherwydd eu hoedran. Gwelsom hefyd fod ffioedd ar gyfer triniaethau wedi'u harddangos.

Roedd prosesau cynllunio triniaethau a thrafodaethau ynghylch opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi i safon dderbyniol yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod oriau agor y practis wedi'u harddangos yn glir y tu allan i'r adeilad a'u bod wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion hefyd.

Dywedodd staff y dderbynfa wrthym y byddai cleifion yn cael gwybod ar lafar am unrhyw oedi i amseroedd apwyntiadau ac y byddent yn cael cynnig yr opsiwn i aildrefnu, lle y bo'n briodol. Dywedwyd wrthym mai prin oedd yr achosion o oedi.

Cadarnhaodd y staff fod capasiti ar gyfer apwyntiadau brys wedi'i gynnwys yn amserlen ddyddiol pob deintydd ac yn cael ei rannu â'r clwstwr BUPA cyfan, a bod apwyntiadau brys yn cael eu blaenoriaethu yn seiliedig ar symptomau ac anghenion clinigol y cleifion.

Roedd rhifau ffôn ar gyfer cael gofal brys i gleifion preifat y tu allan i'r oriau agor arferol wedi'u harddangos y tu allan i adeilad y practis ac wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion. Dywedodd y rhai a ymatebodd i'r holiadur wrthym eu bod yn gwybod sut i gael gfael ar gymorth y tu allan i oriau.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd arwyddion dwyieithog ym mhob rhan o'r practis. Roedd modd adnabod y staff a oedd yn gallu siarad Cymraeg neu a oedd yn dysgu Cymraeg, yn glir. Roedd y staff yn ymwybodol o'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac roeddent wedi defnyddio'r cynnig drwy ffynonellau lleol. Roedd deunyddiau gwybodaeth i gleifion ar gael yn Saesneg. Fodd bynnag, roedd taflenni gwybodaeth eraill ar gael mewn gwahanol ieithoedd a gellid eu hargraffu pe bai angen.

Fodd bynnag, wrth edrych ar sampl o gofnodion cleifion, gwnaethom nodi nad oedd dewis iaith y cleifion wedi'i gofnodi bob amser.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod yn gofyn am ddewis iaith pob claf ac yn ei gofnodi er mwyn helpu i ddarparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion pob claf.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom fod polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol ar waith yn y practis, a oedd yn cynnwys cyfeiriadau at ddeddfwriaeth berthnasol a nodweddion gwarchodedig. Gwelsom hefyd fod polisi ar wahân ar waith a oedd yn ymdrin ag anabledd a gwahaniaethu. Gwelsom dystiolaeth bod pynciau o'r fath yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm at ddibenion hyfforddiant a datblygiad.

Gwelsom fod asesiad o fynediad i bobl anabl wedi cael ei gwblhau. Roedd hwn yn nodi nad oedd grisiau wrth y fynedfa i'r llawr gwaelod a oedd yn addas i gadeiriau olwyn.

Dywedodd staff y dderbynfa wrthym fod anghenion hygyrchedd yn cael eu trafod â'r cleifion pan fyddai apwyntiadau'n cael eu trefnu dros y ffôn, fel bod modd clustnodi apwyntiadau i'r ddeintyddfa ar y llawr gwaelod lle bo angen.

Dywedodd y staff wrthym fod cleifion nad oeddent yn gallu defnyddio'r grisiau yn cael cynnig apwyntiadau yn y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod y safle yn lân, yn daclus ac nad oedd unrhyw annibendod. Roedd gan y practis bolisiau ar waith mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, ansawdd ac addasrwydd yr amgylchedd a chynnal a chadw cyfarpar. Roedd cofnodion manwl o brofion dŵr rheolaidd am Legionella, a gefnogwyd gan broses archwilio.

Gwelsom dystiolaeth bod profion offer cludadwy (PAT) wedi'u cwblhau a'u bod yn gyfredol. Roedd Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol hefyd ar waith ac yn gyfredol. At hynny, roedd gwiriadau diogelwch a gwasanaethu nwy wedi'u cwblhau, ac nid oedd unrhyw faterion wedi'u nodi.

Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth mewn perthynas â diogelwch tân, gan gynnwys cofnodion o ymarferion tân a gwiriadau rheolaidd, ynghyd â phrosesau i archwilio a chynnal a chadw'r cyfarpar diogelwch tân. Gwelsom fod arwyddion clir yn dangos y llwybrau dianc, gydag allanfeydd ym mlaen a chefn yr adeilad. Roedd mathau priodol o ddiffoddwyr tân wedi'u gosod yn sownd, roedd arwyddion clir ar eu cyfer, ac roeddent wedi cael eu harchwilio a'u gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion 'dim smygu' wedi'u harddangos yn glir, a oedd yn dangos bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar fangreoedd di-fwg.

Roedd cyfleusterau newid ar gael i'r staff ynghyd â lle diogel i storio eiddo personol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi prosesau atal a rheoli heintiau effeithiol. Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau perthnasol ar gael a bod amserlen lanhau ar waith. Roedd gan y nyrs arweiniol gyfrifoldeb llawn am reoli heintiau ac am oruchwyllo archwiliadau clinigol.

Gwelsom fod un ystafell ddihalogi ar y llawr cyntaf lle roedd system mynediad a reolir â bysellbad ar y drws. Roedd yr ystafell ddihalogi'n cael ei defnyddio i brosesu a sterileiddio offer deintyddol, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Dangosodd y staff ddealltwriaeth dda o'r prosesau ar gyfer dihalogi a

sterileiddio. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau cyfarpar perthnasol yn cael eu cynnal yn rheolaidd, eu cofnodi a'u harchwilio.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod o'r farn bod y practis yn 'lân iawn' a bod mesurau atal a rheoli heintiau amlwg ar waith.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli gwastraff. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel y tu allan i'r adeilad mewn ardal â gât a oedd wedi'i chloi.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom adolygu trefniadau rheoli meddyginiaethau'r practis a chanfod bod protocolau ar waith i gefnogi'r gwaith o drin a storio meddyginiaethau'n ddiogel. Dywedodd y staff wrthym fod y trefniadau hyn yn destun archwiliad rheolaidd.

Gwelsom fod pecynnau cymorth cyntaf ar gael a bod gwiriadau'n cael eu cofnodi. Gwnaethom adolygu cofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd a rhoi ocsigen. Gwelsom hefyd fod dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

Gwelsom fod y cyfarpar brys yr oedd ei angen i ymateb i ddirywiad sydyn claf mewn cyflwr da ac o fewn y dyddiadau defnyddio. Dywedodd y staff wrthym fod gwiriadau'n cael eu cwblhau'n wythnosol, neu ar ôl defnyddio'r cyfarpar, a bod y cyfarpar wedi'i gynnwys yn rhaglen archwilio'r practis.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd polisiâu a gweithdrefnau diogelu cyfredol ar waith ac roeddent ar gael i bob aelod o'r staff. Dangosodd y staff ymwybyddiaeth o Weithdrefnau Diogelu Cymru a gwnaethant gadarnhau eu bod yn defnyddio ap ar eu ffonau symudol i gefnogi arferion diogelu.

Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu ar gyfer plant ac oedolion. Rheolwr y practis oedd yr arweinydd diogelu ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant Lefel 3 ar ddiogelu. Roedd aelodau eraill o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu hyd at Lefel 2 ac roedd pob aelod o'r staff yn cydymffurfio'n llawn â'r hyfforddiant.

Gwnaethom edrych ar y cofnodion diogelu a gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi codi pryderon ac wedi cysylltu â'r tîm diogelu lleol lle nad oedd cleifion wedi mynychu apwyntiadau ac nad oedd modd cysylltu â nhw. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cael gwybod am broses y practis ar gyfer apwyntiadau a gollwyd, gan gynnwys y ffaith y byddai diffyg presenoldeb dro ar ôl tro heb ganslo yn sbarduno camau dilynol yn unol â'r polisi diogelu.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y cyfarpar clinigol yn addas i'w ddefnyddio ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol. Roedd cofnodion gwasanaethu ar waith i ddangos tystiolaeth o waith cynnal a chadw arferol.

Gwelsom fod rhestr o gyfarpar pelydr-X yn cael ei chadw a bod dogfennaeth ategol, gan gynnwys cofnodion cynnal a chadw a rheolau lleol, ar gael.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth bod aelodau perthnasol o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd systemau effeithiol ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Disgrifiodd y staff y gweithdrefnau ar gyfer cael a dilyn canllawiau ac argymhellion proffesiynol.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac yn unol â pholisi Rheoli Cofnodion priodol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf a gwelsom dystiolaeth bod profion sgrinio am ganser y geg wedi'u cynnal a'u cofnodi'n briodol.

Fodd bynnag, gwelsom hefyd fod gwybodaeth ar goll neu'n anghyflawn mewn nifer o feysydd. Nid oedd hanesion meddygol y cleifion bob amser wedi'u diweddarau, ac nid oedd dogfennaeth o drafodaethau â chleifion a phenderfyniadau, gan gynnwys dogfennau cyfiawnhau triniaeth a'r defnydd o belydrau-X cyn tynnu dannedd, bob amser wedi'u cofnodi'n glir.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y cyfleusterau yn briodol ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol a bod prosesau ar waith i weithredu'r practis yn effeithlon.

Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod y cyfleusterau yn y practis yn addas iddynt gyflawni eu dyletswyddau a bod yr amgylchedd yn briodol i sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Dywedwyd wrthym fod atgyfeiriadau at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn cael eu gwneud yn electronig, ac felly bod modd rhannu gwybodaeth yn effeithlon.

Dywedwyd wrthym hefyd y byddai staff y practis yn mynd ar drywydd unrhyw atgyfeiriadau yr ystyriwyd eu bod yn rhai brys, fel amheuan o ganser y geg, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael apwyntiad amserol.

Lle bynnag y bo'n bosibl, roedd y practis yn trefnu i weld cleifion yr oedd angen gofal a thriniaeth frys arnynt o fewn oriau agor arferol er mwyn atal sefyllfa lle y byddai'n rhaid i'r cleifion fynychu gwasanaethau gofal brys neu wasanaethau y tu allan i oriau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Profiad y staff a'r amgylchedd gwaith

Roedd yr adborth a gafwyd gan y staff a ymatebodd i holiadur AGIC a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn gadarnhaol ynghylch eu profiad o weithio yn y gwasanaeth. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod wedi gweithio yn y practis ers amrywiaeth flynyddoedd, sy'n dangos sefydlogrwydd o fewn y tîm. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu paratoi'n dda ar gyfer eu rolau a gwnaethant ddisgrifio'r trefniadau hyfforddi a oedd yn cynnwys hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol i'w rolau.

Dywedodd y staff wrthym fod yr adnoddau sydd eu hangen arnynt ar gael iddynt, gan gynnwys gwybodaeth, cymorth a deunyddiau priodol yn ogystal â systemau technoleg cyfathrebu. Gwnaethant ddweud bod lefelau staffio a chymysgedd sgiliau addas yn y tîm a gwnaethant gadarnhau eu bod yn gallu bodloni gofynion eu rolau. Gwnaethant hefyd ddisgrifio'r gwaith adnewyddu a oedd wedi'i gynllunio yn y deintyddfeydd eraill, ar ôl i un deintyddfa gael ei hadnewyddu'n ddiweddar. Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r practis yn ymfalchïo yn yr hyn y mae'n ei gynnig a'r ffordd y mae'r staff yn ymddwyn ac yn helpu ei gilydd i sicrhau ei fod yn lle glân, diogel a hapus i gleifion a staff.”

“Mae BUPA Dental Care Wreccsam yn bractis hyfryd a chefnogol i weithio ynddo. Mae'r tîm yn wych ac mae rheolwr y practis bob amser yn mynd gam ymhellach i helpu'r staff a'r cleifion.”

“Lle gwych i weithio. Mae'r rheolwr yn gefnogol iawn.”

“Mae deintyddiaeth yn swydd llawn straen a gall bodloni disgwyliadau pawb wneud bywyd yn anodd. Mae BUPA a fy rheolwr yn ceisio lliniaru hyn lle y bo'n bosibl.”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Gwelsom fod y practis yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o safon dda ac i wella'n barhaus.

Roedd cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal, gyda chofnodion yn cael eu dosbarthu a'u llofnodi er mwyn cefnogi prosesau cyfathrebu effeithiol ac i sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael arfarniadau rheolaidd, a oedd yn cynnig cyfle i drafod anghenion datblygu, dilyniant a hyfforddiant. Fodd bynnag, dim ond tri o'r 10 ymatebydd oedd wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf, a gellid gwella hyn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff arfarniadau staff eu cynnal bob blwyddyn.

Gwelsom fod cyfres o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith a bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gwelsom hefyd fod llesiant y staff yn rhan bwysig o'r practis a bod amser llesiant yn cael ei ddyrannu i'r staff yn rheolaidd fel rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom fod gwiriadau recriwtio a chyflogi priodol yn cael eu cynnal er mwyn helpu i benodi staff yn ddiogel, wedi'u hategu gan bolisiâu a gweithdrefnau sefydledig. Roedd y rhain yn cynnwys dilysu gwybodaeth adnabod, cymwysterau a brechiadau, a chadarnhau gwiriadau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Cadarnhaodd ein hadolygiad o gofnodion pum aelod o'r staff eu bod wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod ganddynt yswiriant indemniad proffesiynol, a'u bod wedi cael brechiadau rhag Hepatitis B.

Gwelsom fod y staff yn cydymffurfio'n dda â'r gofynion o ran hyfforddiant gorfodol, a'u bod yn cael eu cefnogi gan systemau rheoli effeithiol. Roedd cyfleoedd hyfforddiant ar gael i'r staff yn gyson ac roeddent yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd y practis yn ceisio adborth gan gleifion. Roedd y rheolwr cofrestredig yn adolygu'r adborth ac yn ymateb iddo fel y bo'n briodol. Roedd argymhellion ar gyfer gwella yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff, ac roedd newidiadau'n cael eu gwneud lle bo angen.

Roedd gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar waith, ac roedd poster wedi'i arddangos yn glir i hysbysu'r cleifion am y broses. Cadarnhaodd y staff y gellid darparu copïau o'r weithdrefn ar gais a'u bod ar gael ar-lein. Roedd y weithdrefn yn amlinellu manylion cyswllt perthnasol, amserlenni ar gyfer ymateb, a chyfarwyddiadau ar gyfer uwchgyfeirio cwynion lle bo angen. Roedd y polisi cwyno yn cynnwys manylion sefydliadau allanol a allai gefnogi'r broses ddatrys ar gyfer cleifion preifat.

Dywedodd y staff wrthym nad oedd cwynion yn cael eu gwneud yn aml. Pan oedd cwynion yn dod i law, roeddent yn cael eu dogfennu yng nghofnodion y cleifion a'u cofnodi mewn ffeil a chofnodlyfr cwynion. Roedd themâu yn cael eu nodi, ac roedd tystiolaeth glir o'r gwersi a ddysgwyd o'r cwynion.

Roedd gan y practis bolisi ar y Ddyletswydd Gonestrwydd hefyd, ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein yn unol â'r gofynion.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i helpu i sicrhau bod gwybodaeth cleifion yn cael ei rheoli'n ddiogel. Roedd cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel, ac roedd systemau papur ac electronig ar waith i gynnal cyfrinachedd. Roedd yr holl gofnodion papur yn cael eu cadw'n ddiogel ac roedd copïau wrth gefn o ffeiliau electronig yn cael eu gwneud fel mater o drefn. Roedd polisi diogelu data ar waith i gefnogi ymwybyddiaeth y staff o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â llywodraethu gwybodaeth.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd yn amlwg bod y staff yn y practis yn ymrwymedig i wella'r gwasanaeth yn barhaus. Rhoddwyd enghreifftiau o'r archwiliadau a gynhaliwyd fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis, gan gynnwys archwiliadau o gofnodion cleifion, pelydrau-X, atal a rheoli heintiau, dihalogi yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05, presgripsiynau, hylendid dwylo ac adborth gan gleifion.

Gwelsom fod y tîm deintyddol yn rhagweithiol, yn wybodus ac yn broffesiynol. Roeddent yn dangos dealltwriaeth glir o ble i gael cyngor ac arweiniad a sut i wneud hynny pan fo angen.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Disgrifiodd rheolwr y practis y trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymgysylltu â gwasanaethau eraill BUPA.

Roedd system electronig yn cael ei defnyddio i atgyfeirio cleifion, gan gynnwys y rhai hynny yr oedd angen eu hatgyfeirio ar frys, at wasanaethau gofal iechyd eilaidd.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Bupa Dental Care Wreccsam

Dyddiad yr arolygiad: 28 Mai 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau		Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad.	
Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	
1.			
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		Swyddog cyfrifol	Amserlen

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Bupa Dental Care Wreccsam

Dyddiad yr arolygiad: 28 Mai 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1 Nid oedd cofnodion rhai cleifion yn cynnwys dogfennaeth lawn ar ddewis iaith, cyfathrebu a chynghor a chyfiawnhad dros gynnal triniaethau.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod camau wedi'u cymryd i ymdrin â'n canfyddiadau. Gellid ystyried archwiliad adolygu cymheiriaid i sicrhau diogelwch cleifion, parhad gofal a thystiolaeth o benderfyniadau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (2017)	Trafodwyd y mater hwn yng nghyfarfod y practis ac rydym wedi newid y templed nodiadau er mwyn ychwanegu dewis iaith. Mae cyfarfodydd clinigwyr wedi'u trefnu i gynnal archwiliad adolygu cymheiriaid a'i drafod a bydd cofnodion y cyfarfod hwn yn cael eu cadw yn y practis. Mae archwiliadau o nodiadau cleifion clinigwyr yn cael eu cwblhau bob chwe mis. Rhoddir adborth i'r clinigydd os oes angen gwneud unrhyw welliannau a chaiff yr archwiliadau hynny eu hailadrodd yn gynt os nad ydynt yn bodloni'r gofynion.	Rheolwr Practis	Wedi'i gwblhau 09/07/2026

2	Ni allai cleifion cymorth i roi'r gorau i smygu ar gael yn uniongyrchol i gleifion.	Rydym yn argymhell y dylid cynnig mynediad at wasanaeth 'helpa fi i stopio', a byddai'n fuddiol iawn i gleifion.		Trafodwyd 'helpa fi i stopio' yng nghyfarfod y practis. Mae dolen i atgyfeirio cleifion at wasanaeth 'helpa fi i stopio' wedi cael ei hanfon at bob clinigydd, ac rydym wedi gosod poster sy'n cynnwys y ddolen ar y waliau yn y deintyddfeydd er mwyn cefnogi clinigwyr i atgyfeirio cleifion.	Rheolwr Practis	Wedi'i gwblhau 09/07/2026
3	Nid oedd pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad bob 12 mis.		Mae cofnodion cyfarfodydd un i un ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff, ar wahân i un gan fod yr aelod o staff ar gyfnod mamolaeth. Mae cyfarfodydd un i un â chlinigwyr yn cael eu cwblhau bob mis. Mae arfarniadau staff yn cael eu cwblhau bob mis Rhagfyr, a chaiff amcanion newydd eu gosod ar gyfer y flwyddyn newydd sydd i ddod a'u hadolygu bob hanner blwyddyn.	Rheolwr Practis	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Bupa Dental Care Wreccsam

Enw (priflythrennau): LYNSEY NORTHALL

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 09/07/2026